Adroddiad i'r	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad yr adroddiad	27 Gorffennaf 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2020-21 Cyngor Sir Ddinbych

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2020-21 – Cyngor Sir Ddinbych' wedi'i baratoi gan Archwilio Cymru (AW) ac mae ynghlwm.1.1 Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2020/21.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae AW wedi gofyn i'r adroddiad mewnol hwn gael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn. Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad AW. Bydd cynrychiolwyr AW yn mynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni 2020/21 y Cyngor ac mae at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno hawliadau grant 2020/21. Mae nifer y grantiau sy'n cael eu harchwilio'n benodol gan AW wedi lleihau'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r saith sy'n weddill yn gymhleth iawn ac yn cynnwys nifer fawr o drafodion a gwerth. Mae'n braf bod cyfanswm effaith y newidiadau i hawliadau a ffurflenni'r Awdurdod yn fach. Dylid nodi hefyd mai dim ond un o'r grantiau oedd angen cymwysterau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Cyllid Grant yn hanfodol i ariannu gweithgarwch llywodraeth leol mewn nifer o feysydd. Mae adroddiad AW yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol ar waith o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grantiau.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r ffioedd am waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2020-21 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae AW yn gweithio'n agos gyda CSDd drwy gydol y broses archwilio a chaiff CSDd ei hysbysu'n llawn am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Archwilio Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae adroddiad AW ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu i ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n bleser nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol mewn lle. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllidebol presennol ar gyfer yr awdurdod. Hoffwn ddiolch i dîm Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb a'u dealltwriaeth barhaus wrth wneud y gwaith pwysig hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu'r effaith neu i'w lleihau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynnu bod gan y cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os bydd yn ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grantiau, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.